

Amddiffyn Plant

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Hysbysiad pwysig i'r holl staff, disgyblion, llywodraethwyr ac ymwelwyr.

Beth yw Diogelu?

Diogelu yw'r cam gweithredu a gymerir i hyrwyddo lles plant a'u hamddiffyn rhag niwed.

Ystyr diogelu yw:

- amddiffyn plant rhag camdriniaeth
- atal niwed i iechyd neu ddatblygiad plentyn
- sicrhau bod plant yn cael gofal diogel ac effeithiol wrth dyfu i fyny
- cymryd camau gweithredu i alluogi pob plentyn a pherson ifanc i gael y canlyniadau gorau.

Beth yw Amddiffyn Plant?

Mae amddiffyn plant yn rhan o'r broses diogelu. Mae'n rhoi ffocws ar amddiffyn plant unigol y nodwyd eu bod yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau sy'n manylu ar sut i ymateb i bryderon am blentyn.

Ein Gweithdrefnau

Mae'r ysgol yn ymrwymedig i ddiogelu ac amddiffyn plant ac mae ganddi bolisiau ar waith sydd wedi'u dylunio i amddiffyn disgyblion a staff. Mae copïau o'r polisiau hyn ar gael ar wefan yr ysgol neu o swyddfa'r ysgol.

Staff, Llywodraethwyr a Gwirfoddolwyr yn yr ysgol

Cyn i rywun newydd ddod i weithio neu wirfoddoli yn ein hysgol, mae gennym brosesau recriwtio mwy diogel trylwyr ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys gwiriadau cefndir megis gwiriadau GDG manwl a geirdaon.

Bydd pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd am ddiogelu ac amddiffyn plant. Anogir llywodraethwyr a gwirfoddolwyr i gymryd rhan hefyd.

Os oes gennych bryder

Gobeithiwn na fydd angen i chi ddefnyddio'r broses hon, fodd bynnag, os oes gennych unrhyw bryder am blentyn, siaradwch ag un o'r unigolion a enwir isod cyn gynted â phosib.



Mrs Loader



Mr Elis



Mrs Phillips



Mrs Green

Manylion cyswllt Swyddog Cyswllt yr Heddlu ar gyfer Ysgolion yw: Robert.George@south-wales.police.uk

I gael help a chefnogaeth ychwanegol neu i siarad â rhywun annibynnol o'r ysgol, gallwch ffonio Swyddog Diogelu Addysg y cyngor,

Anneliese Donovan, ar 01639 763363 neu 07855079790 neu e-bostio a.donovan3@npt.gov.uk.

Fel arall, gallwch gael mynediad at gyngor neu gefnogaeth a gallwch wneud atgyfeiriadau drwy'r tîm PCU drwy ffonio 01639 686802 neu drwy e-bostio spoc@npt.gov.uk

Mae pawb yn gyfrifol am gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel

